

# Profi eich hunaniaeth



**SWANSEA**  
BUILDING SOCIETY

Sefydlwyd 1923

## Profi eich Hunaniaeth

Sut i brofi eich enw a chyfeiriad  
wrth agor cyfrif cynilo  
Gweithredol 1 Medi 2023



Protected

## **Pam fod angen i mi brofi fy hunaniaeth?**

Os ydych chi'n gwsmer newydd neu'n gwsmer eisoes, mae angen i ni gadarnhau pwy ydych chi wrth i chi agor cyfrif cynilo newydd gyda ni. Does dim angen i chi ofidio, dyw hyn ddim yn golygu eich bod dan amheuaeth. Y rheswm dros wneud hyn yw er mwyn i ni allu cwrdd â rheoliadau gwyngalchu arian y DU er mwyn helpu i atal troseddwy'r rhag defnyddio cynnyrch neu wasanaethau ariannol er eu budd nhw. Byddwn ni ond yn gofyn am ddigon o wybodaeth er mwyn ein galluogi ni i agor eich cyfrif.

## **Beth fydd ei angen arnoch er mwyn agor cyfrif?**

Pan fyddwch chi'n agor cyfrif, mae gofyn i ni wirio eich enw a'ch cyfeiriad. **Y ffordd rydyn ni'n ei ffafrio o adnabod ymgeiswyr sydd dros 18 yw drwy SmartSearch, offeryn arlein sy'n defnyddio gwybodaeth o Asiantaethau Cyfeirio Credyd i wirio eich hunaniaeth.** Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn yn ein galluogi i agor eich cyfrif heb gael dim dogfennau adnabod papur. (nodwch os gwelwch yn dda y bydd hyn yn dangos fel chwiliad ar y bas data yn unig, ac nid fel gwiriad sgôr credyd, felly ni fydd yn effeithio ar eich graddfa gredyd).

Os bydd angen mwy o brawf hunaniaeth arnom byddwn ni'n rhoi gwybod i chi. Bydd y gofynion hyn hefyd yn berthnasol os ydych chi dan 18 oed. Bydd y nifer a'r mathau o ddogfennaeth adnabod y bydd angen i chi eu darparu yn yr achosion hyn yn dibynnu ar a ydych chi'n aelod presennol ac a fyddwch chi'n agor cyfrif yn un o'n canghennau neu drwy'r post. Rhaid darparu dogfennaeth wreiddiol, ac nid copïau, os gofynnir amdanynt. Nodwch os gwelwch yn dda, yn achos dangos darn o ddogfennaeth adnabod sy'n deillio o ffynhonnell a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth, rhaid i'r enw(au), cyfeiriad a / neu ddyddiad geni fod union yr un peth.

**Os ydym wedi gofyn i chi ddarparu ddogfennaeth adnabod papur, diilynwch y canllawiau isod os gwelwch yn dda:**

## **Dogfennau adnabod fydd eu hangen ar gyfer Cwsmeriaid Newydd sy'n agor cyfrif mewn swyddfa gangen:**

Os byddwch chi'n galw yn un o'n swyddfeydd cangen i agor cyfrif, bydd angen i chi ddarparu tri math gwahanol o ddogfennau adnabod, **un o**

Dabl A sy'n cadarnhau eich enw, a  **dau** o Dabl B sy'n cadarnhau eich cyfeiriad. Nodwch os gwelwch yn dda ein bod ni'n chwilio'r rhestr etholwyr yn achos pob cais gan gwsmer newydd i agor cyfrif.

## **Dogfennau adnabod fydd eu hangen ar gyfer Cwsmeriaid Cynilo Presennol sy'n agor cyfrif mewn swyddfa gangen:**

Os byddwch chi'n galw yn un o'n canghennau i agor cyfrif, ni fydd angen i chi ddarparu dogfennau adnabod ychwanegol cyhyd ag y gallwn ni eich adnabod drwy gyfrwng eich llofnod, ac nad yw'r ddogfennaeth adnabod sydd gennym amdanoch wedi darod. Os yw eich llofnod wedi newid, neu os nad yw'n cyd-fynd â'n cofnodion, bydd angen i chi ddarparu **tri** math o ddogfen adnabod, **un o** Dabl A sy'n cadarnhau eich enw, a  **dau** o Dabl B sy'n cadarnhau eich cyfeiriad. **Nodwch os gwelwch yn dda ein bod ni'n chwilio'r rhestr etholwyr yn achos pob cais i agor cyfrif newydd os nad ydych wedi agor cyfrif newidd yn ystod y 6 mis diwethaf.** Nodwch hefyd y gellir gofyn i chi ddarparu dogfennau adnabod newydd (gan gynnwys gwirio eich cyfeiriad) wrth agor cyfrif os yw'r dogfennau sydd gennym ar ein system wedi darod a / neu os ydych chi wedi symud cyfeiriad ac heb ddarparu dogfennau wedi'u diweddaru i'r Gymdeithas yn dangos y cyfeiriad newydd. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i ni gael un math o ddogfen adnabod o dabl A sy'n cadarnhau eich enw ac un math o ddogfen adnabod o Dabl B sy'n cadarnhau eich cyfeiriad.

## **Agor y cyfrif drwy'r post (cwsmeriaid newydd):**

Os ydych chi'n agor cyfrif drwy'r post, bydd angen i chi ddarparu **pedwar** math gwahanol o ddogfen adnabod, **dau** o Dabl A sy'n cadarnhau eich enw, a  **dau** o Dabl B sy'n cadarnhau eich cyfeiriad. Nodwch os gwelwch yn dda ein bod ni'n chwilio'r rhestr etholwyr yn achos pob cais gan gwsmeriaid newydd i agor cyfrif newydd. Pan fydd dogfennau'n cael eu hanfon drwy'r post, argymhellwn yn gryf eu bod yn cael eu hanfon â danfoniad cofnodedig. Bydd pob dogfen a dderbynnir drwy'r post yn cael eu dychwelyd drwy ddanfoniad cofnodedig.

## **Agor y cyfrif drwy'r post (cwsmeriaid presennol):**

Os byddwch chi'n gwneud cais am gyfrif drwy'r post, ni fydd angen i chi ddarparu unrhyw ddogfennau adnabod ychwanegol cyhyd â bod eich llofnod yn cyd-fynd â'n cofnodion, a bod y dogfennau adnabod sydd gennym ddim wedi

darfod. Os yw eich llofnod wedi newid, neu os nad yw'n cyd-fynd â'n cofnodion, cysylltir â chi naill ai er mwyn i chi ymweld ag un o'n swyddfeydd cangen gyda **dau** fath o ddogfen adnabod, **un** o Dabl A sy'n cadarnhau eich enw ac **un** o Dabl B sy'n cadarnhau eich cyfeiriad, **neu** er mwyn i chi bostio **dau** fath gwahanol o ddogfennau adnabod atom, **un** o Dabl A sy'n cadarnhau eich enw ac **un** o Dabl B sy'n cadarnhau eich cyfeiriad. **Nodwch os na fyddwch chi wedi agor cyfrif newydd yn ystod y 6 mis diwethaf, byddwn ni'n chwilio'r rhestr etholwyr yn achos pob cais i agor cyfrif newydd. Nodwch os gwelwch yn dda y gellir gofyn i chi ddarparu dogfennau adnabod newydd wrth agor cyfrif os yw'r dogfennau adnabod sydd gennym ar ein system wedi darfod a / neu os ydych chi wedi symud cyfeiriad ac heb ddarparu dogfennau wedi'u diweddaru i'r Gymdeithas yn dangos y cyfeiriad newydd. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i ni gael un math o ddogfen**

### Dogfennau adnabod sy'n ofynnol ar gyfer agor Cyfrifon i Blant (dan 18):

Pan fydd cyfrif yn cael ei agor ar ran plentyn sydd dan 18 oed, bydd angen i chi ddarparu'r dogfennau adnabod canlynol:

- Pasbort dilys llawn y DU, NEU dystysgrif geni / mabwysiadu gwreiddiol NEU basport dilys yr EEA NEU Gerdyn Adnabod Person Ifanc achrededig PASS
- Prawf o gyfeiriad y Plentyn – ac os nad oes gan y plentyn un yn uniongyrchol y gellir tystio iddo drwy brawf o Enw a Chyfeiriad eu rhiant / mam-gu / tad-cu / gwarchodwr y maen nhw'n byw gyda nhw – mae angen un math o ddogfen adnabod o Dabl B. Nodwch y gwneir chwiliad electronig ar y cyfeiriad hwn.

#### A

- Prawf o'ch Enw a'ch Cyfeiriad – mae angen un math o ddogfen adnabod o Dabl A sy'n cadarnhau eich enw ac un o Dabl B sy'n cadarnhau eich cyfeiriad os agorir y cyfrif wyneb yn wyneb a chi'n bresennol. Os agorir drwy'r post, bydd angen pedwar math o ddogfen adnabod, dau o Dabl A sy'n cadarnhau eich enw a dau o Dabl B sy'n cadarnhau eich cyfeiriad. Nodwch y gwneir chwiliad electronig ar y cyfeiriad hwn.

**adnabod o dabl A sy'n cadarnhau eich enw ac un math o ddogfen adnabod o Dabl B sy'n cadarnhau eich cyfeiriad.** Pan fydd dogfennau'n cael eu hanfon drwy'r post, argymhellwn yn gryf eu bod yn cael eu hanfon â danfoniad cofnodedig. Bydd pob dogfen a dderbynnir drwy'r post yn cael eu dychwelyd drwy ddanfoniad cofnodedig.

### Dogfennau adnabod sy'n ofynnol ar gyfer oedolion:

Bydd y Gymdeithas ond yn derbyn dogfennau ID Papur ar gyfer Dinasyddion y DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) sy'n preswlyo yn y DU. Os nad ydych chi'n ddinesydd y DU / EEA, yna ni allwn agor cyfrif ar eich cyfer.

### Os ydych dan 18 ac yn agor cyfrif drosoc eich hun, bydd angen i chi ddarparu'r ddogfen adnabod ganlynol:

- Pasbort dilys llawn y DU, NEU dystysgrif geni / mabwysiadu gwreiddiol NEU basport dilys yr EEA NEU Gerdyn Adnabod Person Ifanc achrededig PASS

#### A

- Prawf o'ch Cyfeiriad – ac os nad oes gennych un yn uniongyrchol y gellir tystio iddo drwy brawf o Enw a Chyfeiriad eich rhiant / mam-gu / tad-cu / gwarchodwr rydych chi'n byw gyda nhw – mae angen un math o ddogfen adnabod o Dabl A sy'n cadarnhau eich enw ac un o Dabl B sy'n cadarnhau eich cyfeiriad os agorir y cyfrif wyneb yn wyneb a'ch rhiant / mam-gu / tad-cu / gwarchodwr yn bresennol os defnyddir eu cyfeiriad nhw.

Os agorir drwy'r post, bydd angen pedwar math o ddogfen adnabod, dau o Dabl A sy'n cadarnhau eich enw a dau o Dabl B sy'n cadarnhau eich cyfeiriad. Pan fydd dogfennau'n cael eu hanfon drwy'r post, argymhellwn yn gryf eu bod yn cael eu hanfon â danfoniad cofnodedig. Bydd pob dogfen a dderbynnir drwy'r post yn cael eu dychwelyd drwy ddanfoniad cofnodedig.

**Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch ynghylch hunaniaeth, galwch i mewn neu ffoniwch eich swyddfa gangen leol.**

### TABL A – Prawf o Enw

Tystiolaeth y mae angen i ni ei gweld  
(rhaid iddynt fod yn ddogfennau gwreiddiol,  
nid llungopiau)

Pasbort dilys llawn y DU/EEA neu gerdyn ID  
gwladwriaeth sy'n aelod o'r UE

Trwydded Yrru ddilys lawn y DU (gan gynnwys  
hen drwydded bapur)

Trwydded Yrru cerdyn llun dros dro y DU

Llythyr gan yr Asiantaeth Fudd-daliadau gan  
gynnwys Llythron Credyd Cynhwysol / Pensiwn /  
Lwfans Byw i'r Anabl  
(rhaid ei fod wedi'i anfon lai na 12 mis yn ôl)

Bathodyn Glas dilys â llun (dim ond yn dderbyniol  
os darperir yn uniongyrchol gan ddeiliad y Tocyn)

Cerdyn Teithio Rhatach / Tocyn Bws dilys y DU  
(dim ond yn dderbyniol os darperir yn  
uniongyrchol gan ddeiliad y Tocyn)

Dogfennaeth dreth CaThEM (naill ai hysbysiad  
treth, asesiad codio, datganiad, dogfen greddyd  
neu hysbysiad o god treth – rhaid i bob un fod  
wedi'i anfon lai na chwe mis yn ôl)

Trwyddedau Preswyllo Biometrig (BRPs)

Cardiau preswyllo Biometrig (BRCs)

Cerdyn Adnabod Person Ifanc achrededig PASS  
(i rai dan 18 yn unig)

### TABL B – Prawf o Gyfeiriad

Tystiolaeth y mae angen i ni ei gweld  
(rhaid iddynt fod yn ddogfennau gwreiddiol,  
nid llungopiau)

Trwydded Yrru ddilys lawn y DU  
(gan gynnwys hen drwydded bapur)

Trwydded Yrru cerdyn llun dros dro y DU

Datganiad banc gan fanc neu gymdeithas  
adeiladau a leolir yn y DU  
(rhaid ei fod yn llai na 3 mis oed)

Datganiad cerdyn credyd gan fanc neu  
gymdeithas adeiladau a leolir yn y DU  
(rhaid ei fod yn llai na 3 mis oed)

Datganiad morgais  
(rhaid ei fod yn llai na 12 mis oed)

Bil nwy neu drydan y DU  
(rhaid ei fod yn llai na 3 mis oed)

Bil ffôn y DU  
(nid symudol; rhaid ei fod yn llai na 3 mis oed)

Bil dŵr y DU (rhaid ei fod yn llai na 12 mis oed)

Bil treth y cyngor o'r DU  
(rhaid ei fod yn llai na 12 mis oed)

Datganiad Undeb Credyd o'r DU  
(rhaid ei fod yn llai na 3 mis oed)

Llythyr gan yr Asiantaeth Fudd-daliadau, gan  
gynnwys llythron croesawu Credyd Cynhwysol  
(rhaid ei fod yn llai na 12 mis oed)

Llythyr budd-dal gan eich awdurdod tai lleol  
(rhaid ei fod yn llai na 12 mis oed)

Cytundeb tenantiaeth gan gymdeithas  
dai neu gyngor

**SWANSEA**  
BUILDING SOCIETY

Sefydlwyd 1923

[www.swansea-bs.co.uk](http://www.swansea-bs.co.uk)

SBS (CPYI 0923)

Awdurdoddir Swansea Building Society  
gan yr Awdurdod Rheoleiddio Ariannol a'r  
reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad  
Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio  
Ariannol. Rhif Cofrestr Gwasanaethau  
Ariannol: 206066

### Prif Swyddfa

11-13 Stryd Cradock, Abertawe SA1 3EW  
01792 739100 | [swansea@swansea-bs.co.uk](mailto:swansea@swansea-bs.co.uk)

### Caerfyrddin

13-14 Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AQ  
01267 611950 | [carmarthen@swansea-bs.co.uk](mailto:carmarthen@swansea-bs.co.uk)

### Y Bont-faen

75 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF  
01446 506000 | [cowbridge@swansea-bs.co.uk](mailto:cowbridge@swansea-bs.co.uk)

### Y Mwmbwls

496 Heol Mwmbwls, Abertawe SA3 4BX  
01792 739200 | [mumbles@swansea-bs.co.uk](mailto:mumbles@swansea-bs.co.uk)

### Abertawe

1-4 Stryd Portland, Abertawe, SA1 3DH  
01792 739100 | [swansea@swansea-bs.co.uk](mailto:swansea@swansea-bs.co.uk)